Ombwdsmon Ombudsman Cymru • Wales

# Pecyn Recriwtio Rheolwr Cyllid

## Dyddiad cau: Hanner dydd, 6 Mehefin 2023

# Cynnwys

Cyflwyniad

**Ynglŷn â'r Ombwdsmon**

Gwerthoedd

**Ynglŷn â'r rôl**

Swydd Ddisgrifiad

Pwrpas y rôl

Cyfrifoldebau

Gofynion

**Sut i Ymgeisio**

Ymgeisio am y rôl

Canllawiau ynglŷn â sut i ymgeisio

Cyflwyno eich CV

**Y Broses Recriwtio a Dethol**

**Diogelu Data**

Hysbysiad Preifatrwydd

# Cyflwyniad

Diolch am eich diddordeb yn y rôl **Rheolwr Cyllid** yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Nod ein proses recriwtio yw denu ymgeiswyr o safon ac, yn fwy na dim, recriwtio'r bobl orau.

Mae'r Pecyn Recriwtio hwn yn cynnwys gwybodaeth am OGCC, y broses recriwtio a sut i ymgeisio am y swydd.

Ewch i'n gwefan www.ombwdsmon.cymru am ragor o wybodaeth am y swyddfa.

# Ynglŷn â’r Ombwdsmon

# Ynglŷn â’r Ombwdsmon

Mae gan yr Ombwdsmon dair rôl benodol. Y cyntaf yw ystyried cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru; yr ail yw ystyried cwynion bod cynghorwyr wedi torri'r cod ymddygiad; y trydydd yw ysgogi gwelliant systemig mewn gwasanaethau cyhoeddus a safonau ymddygiad mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r Ombwdsmon yn Unigolyn Corfforaeth ac yn Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y swyddfa. Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol ar holl gyrff y Llywodraeth ac mae’r gwasanaeth a ddarperir yn rhad ac am ddim. Isod ceir rhagor o wybodaeth am waith y Swyddfa.

**Cwynion am ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus**

O dan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion am gyrff sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus, lle mae'r cyfrifoldeb am eu darparu wedi'i ddatganoli i Gymru. Hefyd, gall yr Ombwdsmon gychwyn ymchwiliadau ar ei liwt ei hun pan fydd o’r farn bod amheuaeth resymol o gamweinyddu systemig sy’n achosi anghyfiawnder personol.

**Cwynion Y Cod Ymddygiad**

O dan ddarpariaethau Rhan III y Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, ynghyd â Gorchmynion perthnasol a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf honno, mae'r Ombwdsmon yn ystyried cwynion bod aelodau o awdurdodau lleol wedi torri Cod Ymddygiad eu hawdurdod.

**Sbarduno Gwelliant Systemig/Safonau Ymddygiad**

O dan y Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019, gall yr Ombwdsmon bennu safonau ar gyfer ymdrin â chwynion i ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, cyhoeddi data ar gwynion a chefnogi ymdriniaeth dda â chwynion drwy gynnig hyfforddiant.

# EIN GWERTHOEDD




## Gwerthoedd yr OGCC

Mae OGCC yn credu bod diwylliant yn effeithio ar bob agwedd ar y ffordd rydym yn gweithredu a sut mae gwaith yn cael ei wneud. Rydym yn ymddiried yn ymdeimlad y gweithwyr o bwrpas ynghyd â'r set o werthoedd sy'n llywio ein diwylliant. Nod ein gwerthoedd yw rhoi templed ar gyfer yr ymddygiadau a'r safonau sy'n ddisgwyliedig gan y rhai sy'n gweithio i ni. Maent yn amlinellu'r ffordd rydym yn gwneud pethau yma.

---

**C** **Cyflawni:**

Gwneud ein gorau glas

**U** **Undod:**

Parchu ein gilydd a gweithio ar y cyd er mwyn i'r sefydliad lwyddo

**M** **Meddwl yn gadarnhaol**

Dangos brwdfrydedd a balchder o ran pwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud

**C** **Cefnogaeth:**

Bod yn gefn i'n gilydd a gwerthfawrogi ein hamrywiaeth

**P** **Perchenogaeth:**

Derbyn cyfrifoldeb am bopeth a wnawn

**P** **Parodrwydd:**

Bod yn awyddus, yn hyblyg ac yn rhagweithiol.

# Cyflogwr Chwarae Teg

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymdrechu i sicrhau bod y bobl sy'n defnyddio ei gwasanaeth, a'r rhai sy'n cael eu cyflogi ganddi, yn cael eu trin yn gyfartal. Yn ogystal, nid yw'r Ombwdsmon yn gwahaniaethu drwy amryfusedd yn erbyn aelodau o unrhyw grŵp penodol o gymdeithas

Rydym yn ymroddedig i'r cynllun Hyderus o ran Anabledd ac felly wedi cofrestru i'r canlynol:

- recriwtio cynhwysol a hygyrch
- cyfathrebu swyddi gwag
- cynnig cyfweliad i bobl anabl
- cynnig addasiadau rhesymol
- cefnogi gweithwyr presennol

Rydym wedi cyflawni achrediad Arian Cyflogwr Chwarae Teg o dan gynllun Cyflogwr Chwarae Teg.

# Buddion

- Cyflog cystadleuol
- Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil
- Cynllun Oriau Hyblyg
- Aelodaeth Gampfa am bris gostyngol
- Cynllun arian iechyd
- Cynllun prynu am bris gostyngol
- 32 diwrnod o wyliau blynyddol ynghyd â gwyliau banc (pro rata ar gyfer gweithwyr rhan amser)
- Gweithio hybrid a chyfleusterau ar y safle ardderchog ac offer ar gyfer gweithio gartref
- Cwnsela allanol rhad ac am ddim a chefnogaeth iechyd galwedigaethol

# Ynglŷn â’r rôl

# Swydd Ddisgrifiad

| | Tîm | Teitl Swydd |
|---|---|---|
| **Rôl:** | **Cyllid** | **Rheolwr Cyllid** |
| **Gradd Cyflog:** | Gradd Exec 3 - Exec 6 OGCC | |
| **Cyflog:** | £56,904 - £60,429 | |
| **Yn adrodd i:** | Prif Swyddog Gweithredu/Cyfarwyddwr Gwella | |
| **Math o Gontract:** | Parhaol – 22 awr yr wythnos | |
| **Gwyliau Blynyddol:** | 32 diwrnod y flwyddyn, ynghyd â gwyliau cyhoeddus (pro-rata) | |
| **Cynllun Pensiwn:** | Cynllun pensiwn y gwasanaeth sifil | |
| **Lleoliad:** | Gweithio hybrid | |
| **Gofynion Cymraeg:** | Cymraeg yn ddymunol | |

# Pwrpas y rôl

I gynorthwyo'r Ombwdsmon yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu drwy roi cyngor ariannol strategol, sicrhau rheolaeth ariannol gadarn a thrwy roi sicrwydd ynghylch cadernid prosesau ariannol yr Ombwdsmon.

# Cyfrifoldebau

- Rhoi cyngor ariannol strategol i'r Ombwdsmon yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu.
- Gan ymgynghori â'r Ombwdsmon a'r Tîm Rheoli, paratoi'r gyllideb flynyddol gan sicrhau ei bod yn cael ei chyflwyno o fewn yr amserlen sy'n ofynnol yn Neddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2019.
- Paratoi a chynhyrchu cyfrifon diwedd blwyddyn yr Ombwdsmon i'r safonau a'r amserlenni sy'n ofynnol yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ( FReM ) a chan Archwilwyr Allanol yr Ombwdsmon.
- Gweithio gyda'r Tîm Rheoli i ddatblygu strategaeth ariannol tymor canolig a thymor hir sy'n cefnogi Cynllun Strategol yr Ombwdsmon.
- Ymgysylltu ag archwilwyr allanol a mewnol yr Ombwdsmon a rhoi cyngor i'r Ombwdsmon ar weithredu eu hargymhellion.
- Cynghori a chynorthwyo'r Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella i ddatblygu, gweithredu a rheoli gweithdrefnau rheoli cyllidebol ac ariannol.
- Adolygu polisïau a gweithdrefnau ariannol ac argymell unrhyw newidiadau angenrheidiol.
- Mynychu'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg.

# Cyfrifoldebau (Parhau)

- Rhoi cyngor ariannol yn ôl yr angen i'r Ombwdsmon, y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwelliant a'r Tîm Rheoli.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill, cymesur â'r radd, y sgiliau a'r profiad y mae disgwyl i ddeiliad y swydd feddu arnynt ac sy'n gymesur â'r radd, a all gael eu dyrannu o bryd i'w gilydd gan yr Ombwdsmon.
- Gweithredu yn unol â Gwerthoedd yr Ombwdsmon bob amser.

# Gofynion

## Gofynion hanfodol

- Cymhwyster cyfrifyddiaeth proffesiynol cydnabyddedig, ACCA, ACMA, ACA, CIPFA.
- Gwybodaeth am weithdrefnau cyfrifyddiaeth a chyllidebol y sector cyhoeddus, gan gynnwys gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a chyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu.
- Y gallu i feddwl yn strategol a gweithredu ar lefel strategol.
- Y gallu i roi cyngor cadarn i'r Ombwdsmon, y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Gwella, y Tîm Rheoli ac ARAC a rhoi hyder iddynt yn y cyngor hwnnw.
- O leiaf 3 blynedd o brofiad rheoli ariannol gan gynnwys paratoi cyllidebau, a chyfrifon ac ymgysylltu â gwaith archwilio mewnol ac allanol.
- Y gallu i gyflwyno gwybodaeth gymhleth mewn ffordd ddealladwy.
- Y gallu i weithio dan bwysau i amserlenni tynn.
- Cyfathrebwr da ac yn gallu meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol ar bob lefel.

# Gofynion

**Gofynion hanfodol (parhau)**

- Uniondeb a disgresiwn llwyr, gan ddeall yr angen i gadw gwybodaeth gyfrinachol yn gyfrinachol.
- Sgiliau technegol a TG cadarn, ynghyd â phrofiad o weithio gyda thaenlenni a systemau ariannol.

## Meini Prawf Dymunol

- ❑ Profiad o ddefnyddio MS Excel
- ❑ Gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl a gwasanaethau’r Ombwdsmon
- ❑ Gwybodaeth a phrofiad o reolaeth ariannol a llywodraethu ar gyfer cyrff a ariennir yn uniongyrchol gan y Senedd
- ❑ Gwybodaeth am gynhyrchion ariannol SAGE
- ❑ Y gallu i gyfathrebu yn Gymraeg
- ❑ Trwydded yrru lawn, yn barod i yrru a bod â chludiant eich hun

# Sut i Ymgeisio

# Ymgeisio am rôl y Rheolwr Cyllid

I ymgeisio, cyflwynwch eich CV ynghyd â datganiad ategol yn nodi enghreifftiau o sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol ar gyfer y rôl. Gallwch wneud cais yn Gymraeg neu Saesneg. Ni fydd cais yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol. E-bostiwch eich dogfennau at **recriwtio@ombwdsmon.cymru**

O fewn eich CV a’ch datganiad ategol, sicrhewch eich bod yn:

- ❑ Rhoi manylion eich hanes cyflogaeth dros y 10 mlynedd diwethaf. Wrth lenwi’r adran hon, sicrhewch eich bod yn cynnwys manylion eich swydd gyfredol neu eich swydd ddiweddaraf, hyd yn oed os ydych yn teimlo nad yw’r swydd yn berthnasol i’r cais cyfredol.
- ❑ Nodi eich sgiliau, eich profiad a’ch cyflawniadau a fydd yn eich helpu, yn eich barn chi, i gyfrannu yn y swydd hon at amcanion yr Ombwdsmon. Gallwch ddewis cynnwys hyn yn eich Datganiad Ategol.
- ❑ Darparu manylion y cymwysterau a enillwyd trwy addysg a hyfforddiant, ynghyd ag unrhyw aelodaeth broffesiynol sydd gennych.
- ❑ Darparu manylion dau berson y gellir gofyn iddynt weithredu fel canolwyr proffesiynol/personol. Dylai un o’r rhain fod yn eich cyflogwr presennol neu eich cyflogwr diwethaf
- ❑ Llenwi’r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb. Bydd y ffurflen hon yn cael ei thrin yn gyfrinachol ac ar wahân i’r ffurflen gais, ac ni chaiff ei defnyddio i asesu eich addasrwydd ar gyfer cyflogaeth. Caiff y ffurflen hon ei defnyddio dim ond ar gyfer dibenion monitro cydraddoldeb.

Ni allwn ystyried ceisiadau hwyr neu anghyflawn, na CVs heb ddatganiad ategol. Sicrhewch eich bod yn darparu digon o fanylion i ddangos eich profiad a'ch sgiliau. Bydd eich CV a'ch datganiad ategol yn cael eu defnyddio at ddibenion llunio'r rhestr fer. Sicrhewch fod eich dogfennau yn cael eu derbyn gan yr Ombwdsmon erbyn y dyddiad cau. E-bostiwch eich dogfennau at **recriwtio@ombwdsmon.cymru.**

**Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd, 6 Mehefin 2023**. Ni ellir ystyried ceisiadau a dderbynnir ar ôl yr amser a'r dyddiad hwnnw, am ba bynnag reswm.

# Canllawiau ynglŷn â sut i ymgeisio

Bydd eich CV a'ch datganiad ategol yn ffurfio rhan o'r broses ddethol. Felly, sicrhewch eich bod yn cymryd eich amser a'ch bod yn cyflwyno eich dogfennau gan ddefnyddio teip neu inc du.

- ❑ Darllenwch y Disgrifiad Swyn a'r Pecyn Recriwtio hwn yn ofalus cyn dechrau llenwi'r Ffurflen Gais. Mae'r holl ddogfennaeth recriwtio, gan gynnwys y Ffurflen Gais, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Sicrhewch eich bod yn darparu enghreifftiau yn eich datganiad ategol o sut yr ydych yn bodloni meini prawf hanfodol a dymunol y rôl. Mae dweud "Mae gen i brofiad o ..." yn annigonol, mae angen i chi ddarparu enghreifftiau pendant a phenodol o'ch gwaith / profiad.
- ❑ Rhaid i ni gael eich CV a datganiad ategol erbyn y dyddiad cau, fel y nodwyd yn yr hysbysiad a'r Pecyn Recriwtio.
- ❑ Cwblhewch y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb (ni fydd y manylion a roddwch yn rhan o'r broses ddethol) a'i chyflwyno gyda'ch CV i **recriwtio@ombwdsmon.cymru**
- ❑ Dylai ymgeiswyr sy'n anfon eu CV a datganiad ategol dros ebost nodi y bydd yr amser derbyn yn cael ei bennu gan weinydd yr Ombwdsmon. Dylai ymgeiswyr sy'n ffafrio cyflwyno eu dogfennau trwy'r post wneud hynny drwy eu hanfon at y cyfeiriad post a nodir ar y dudalen nesaf. Cofiwch, nid yw post dosbarth cyntaf yn sicrhau post y diwrnod nesaf. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw gais lle gofynnir i ni dalu diffyg mewn postio.
- ❑ Argymhellwn eich bod yn cadw copi o'r dogfennau y byddwch yn eu cyflwyno ar gyfer eich cofnodion eich hun.

# Cyflwyno eich cais

Rydym yn ffafrio ceisiadau electronig. Anfonwch eich cais i'r cyfeiriad ebost canlynol cyn y dyddiad cau:
**recriwtio@ombwdsmon.cymru**

Fel arall, gallwch argraffu eich Ffurflen Ymgeisio a'i hanfon at:

Recriwtio

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

1 Ffordd yr Hen Gae

Pencoed

CF35 5LJ

Sicrhewch eich bod yn atodi’r canlynol:

- ❑ CV a Datganiad Ategol
- ❑ Ffurflen Monitro Cydraddoldeb

Ar gyfer ymholiadau anffurfiol am y rôl, cysylltwch â Recriwtio ar 01656 644214 neu anfonwch ebost at
**recriwtio@ombwdsmon.cymru**

# Y Broses Recriwtio a Dethol

# Y Broses Recriwtio a Dethol

Bydd y panel dethol yn ystyried pob CV gyda datganiadau atodol. Bydd y panel yn ystyried y wybodaeth, y sgiliau a'r profiad perthnasol fel y dangoswyd yn y ddwy ddogfen. Felly, mae'r wybodaeth a ddarparwch yn hanfodol ar gyfer penderfynu a fyddwch yn cael eich rhoi ar y rhestr fer er mwyn ystyried ymhellach. Caiff y rhestr fer ei llunio drwy ddefnyddio system sgorio, byddwch yn sgorio os byddwch yn darparu enghreifftiau o sut rydych yn bodloni'r meini prawf hanfodol a dymunol ar gyfer y rôl. Ni fydd dweud "Mae gen i brofiad o ... neu rydw i'n dda am..." yn sgorio unrhyw beth, gan nad yw'r rhain yn enghreifftiau o'ch cymhwysedd.

## Gofynion arbennig

Fel cyflogwr sy'n ymroddedig i'r cynllun Hyderus o ran Anabledd, bydd pob ymgeisydd sy'n bodloni'r meini prawf hanfodol ac sy'n anabl yn cael eu rhoi ar y rhestr fer. Cofiwch gynnwys hwn yn eich datganiad ategol. Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig oherwydd, er enghraifft, anabledd, cysylltwch â Recriwtio a fydd yn falch o'ch cynorthwyo. Gallwch wneud hynny drwy ffonio 01656 644214 neu ebostio **recriwtio@ombwdsmon.cymru.**

## Ieithoedd i'w defnyddio yn y cam asesu a chyfweld

Bydd yr iaith (ieithoedd) (Cymraeg / Saesneg) a ddefnyddir wrth asesu a chyfweld yn dibynnu ar ofynion y swydd a dewisiadau'r ymgeiswyr

## Penodi

Cyn penodi:

Bydd angen i’r ymgeisydd llwyddiannus brofi ei fod yn gymwys i weithio yn y DU; cwblhau Holiadur Iechyd, a darparu gwybodaeth ynglŷn ag unrhyw euogfarnau troseddol anhreuliedig.

Bydd angen i OGCC hefyd dderbyn tystlythyrau addas ar gyfer eich penodi i'r rôl. Dim ond ar ôl i gynnig cyflogaeth gael ei wneud a'i dderbyn y gwneir cais am dystlythyrau.

**Dyddiad cau: Hanner dydd, 6 Mehefin 2023**

# Diogelu Data

# Hysbysiad Preifatrwydd

Mae ein hysbysiad preifatrwyddyn egluro'r ffordd y bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol (neu wybodaeth bersonol yr unigolyn y byddwch yn gweithredu ar ei ran). Mae gofynion yr hysbysiad preifatrwydd wedi'u nodi yn Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Diogelu Data 2018

Ombwdsmon
Ombudsman
Cymru • Wales